Heddlu Police
DYFED-POWYS

Twyll Diweddaru Ffôn Symudol – Byddwch yn Wyliadwrus.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol o dwyll cyfredol lle mae prynwyr yn derbyn galwadau diwahoddiad gan unigolion sy'n esgus eu bod nhw'n gweithio i gyflenwyr a gweithredwyr rhwydwaith symudol dilys.

Mae dioddefwyr yn cael cynnig diweddaru eu setiau ffôn yn gynnar, neu'n cael cynnig cytundeb newydd, am bris gostyngol. Unwaith y mae'r cwsmeriaid wedi'u hargyhoeddi bod y cynigion yn ddilys ac yn cytuno i barhau, mae'r drwgdybiedigion yn gofyn iddynt am fanylion eu cyfrifon ffôn symudol ar-lein, gan gynnwys manylion mewngofnodi, cyfeiriad a chyfrif banc.

Yna, mae'r drwgdybiedigion yn gosod archebion gyda chwmnïoedd dilys ar ran dioddefwyr, fodd bynnag, maen nhw'n dewis set law sy'n wahanol i'r un y gofynnwyd amdani ac yn ei hanfon at y cwsmer.

Ar ôl iddynt ei derbyn, mae drwgdybiedigion yn sicrhau dioddefwyr bod camgymeriad wedi digwydd ac yn dweud wrthynt am 'ddychwelyd' y set law i gyfeiriad gwahanol sydd ddim yn gysylltiedig â'r cwmni ffôn symudol. Mae'r cyfeiriadau hyn fel arfer yn rhai preswyl.

Ar ôl rhyng-gipio'r setiau a 'ddychwelir', mae'r drwgdybiedigion yn torri cysylltiad ac mae'r dioddefwyr yn canfod eu hunain heb ffôn ac yn atebol ar gyfer cytundeb newydd a gymerwyd allan yn eu henw.

- Galwadau diwahoddiad ynghylch cytundebau a diweddariadau ffôn symudol – os ydych chi'n ansicr pa un ai a yw'r person sy'n eich galw'n gynrychiolydd swyddogol o'r cwmni mae'n honni ei fod yn gweithio iddo, rhowch y ffôn i lawr a pheidiwch â datgelu unrhyw wybodaeth bersonol.
- Dylech ond cysylltu â'ch darparwr rhwydwaith ffôn symudol ar rif yr ydych yn gwybod sy'n gywir. Er enghraifft, 191 ar gyfer cwsmeriaid Vodafone, 150 ar gyfer cwsmeriaid EE, 333 ar gyfer cwsmeriaid Three, 202 ar gyfer cwsmeriaid O2, 4455 ar gyfer cwsmeriaid Tesco Mobile, 789 ar gyfer cwsmeriaid Virgin Mobile, ac 150 ar gyfer cwsmeriaid Sky Mobile.
- Os ydych chi'n derbyn dyfais nad oeddech chi wedi ei archebu nac yn ei ddisgwyl, cysylltwch â'r anfonwr dilys yn syth. Bydd y manylion ar gyfer hyn o fewn y parsel.
- Peidiwch BYTH â phostio dyfais yn uniongyrchol at gyfeiriad a roddwyd. Byddai pob Gweithredwr Rhwydwaith Ffôn Symudol dilys yn anfon bag cwiltiog ichi ei ddychwelyd heb unrhyw gost ychwanegol i chi.

Cyngor ar gyfer aros yn ddiogel ar-lein:

Stopio: Cymerwch ennyd i feddwl cyn rhoi eich arian neu eich gwybodaeth - gallai hyn eich diogelu.

Herio: A yw'n ffug? Mae'n iawn gwrthod neu anwybyddu unrhyw geisiadau. Dim ond troseddwyr fydd yn ceisio eich brysio neu eich dychryn chi.

Diogelu: Cysylltwch â'ch banc ar unwaith os ydych chi'n meddwl eich bod wedi dioddef twyll a rhowch wybod i'r Heddlu amdano.

Adroddwch am e-byst amheus drwy anfon e-bost at: report@phishing.gov.uk.

Gallwch hefyd adrodd am negeseuon testun amheus drwy anfon y neges wreiddiol ymlaen i 7726, sy'n sillafu 'SPAM' ar eich bysellbad.

Ni fydd yr heddlu, na'ch banc, byth yn gofyn i chi dynnu arian o'r banc na'i drosglwyddo i gyfrif gwahanol. Ni fyddant byth yn gofyn ichi ddatgelu eich cyfrinair bancio na'ch rhif PIN llawn chwaith.

Peidiwch â chlicio ar ddolenni nac atodiadau mewn negeseuon testun neu e-byst annisgwyl neu amheus. Cadarnhewch fod ceisiadau'n ddilys drwy ddefnyddio rhif neu gyfeiriad e-bost hysbys i gysylltu â sefydliadau'n uniongyrchol.

Rhowch wybod i Heddlu Dyfed Powys drwy alw heibio i https://www.dyfed-powys.police.uk/cy-GB/riportio/riportio/ neu drwy alw 101.